**ATODIAD B – YMATEB Y CYNGOR I'R ASESIAD CYFLAWNIAD PANEL**

Mae'r Cyngor yn croesawu adroddiad y Panel ac fe hoffai ddiolch i bob aelod o'r Panel yn swyddogol am eu hamser yn ymgymryd â'r Asesiad. Rydyn ni'n derbyn y casgliadau sydd yn yr adroddiad ac yn bwriadu mynd ar drywydd y tri maes i'w gwella a'r argymhellion ynddo.

Mae cadarnhad yn Adroddiad y Panel ein bod ni'n gweithredu ein swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau cyflawni sydd wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021; mae'r casgliad allanol a gwrthrychol yma'n gyson â'r casgliadau y daeth y Cyngor iddyn nhw yn rhan o'i drefniadau hunanasesu blynyddol ei hun.

Yn Adroddiad y Panel mae lefel uchel o sicrwydd yn cael ei roi hefyd bod y trefniadau sydd ar waith ledled y Cyngor yn gadarn ac effeithiol, a bod dull 'Carfan RhCT' ar waith, gyda hanes da o gyflawni, ethos o wella parhaus a ffocws ar gynnal llesiant ei gymunedau. Mae'r safbwynt yma'n cael ei adlewyrchu yng nghasgliad cyffredinol Adroddiad y Panel, sef:

*"Daeth y panel i'r casgliad bod Rhondda Cynon Taf yn Gyngor da, sy'n cael ei gynnal yn dda, sy'n uchelgeisiol, ac sy'n canolbwyntio ar wella bywydau ei drigolion"*

Yn ogystal â'r safbwynt uchod, rydyn ni'n cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud er mwyn deall effaith a deilliannau'n gwaith yn well wrth inni symud o ddull sy'n canolbwyntio ar wasanaethau i un sy'n canolbwyntio ar y person, a bydd hyn yn fodd o gyflawni ein dyhead o gryfhau cydnerthedd ein cymunedau. Bydd y meysydd i'w gwella / argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr Adroddiad yn ein helpu ni i lywio ein dull.

Yn nhabl 1 mae crynodeb o'r meysydd i'w gwella / argymhellion ynghyd ag ymateb y Cyngor.

**TABL 1 – YMATEB Y CYNGOR I'R MEYSYDD SYDD I'W GWELLA / ARGYMHELLION**

| Meysydd i'w gwella / argymhellion | Ymateb |
|---|---|
| **Adnoddau**<br><br>Mae'r Cyngor yn rhoi sylw manwl i'r modd y bydd y newidiadau angenrheidiol o ran cyflawni ei ddyheadau ar gyfer trawsnewid yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys y capasiti y bydd arno'i angen i gyflawni'r newidiadau.<br><br>Mae'r Cyngor yn cael ei annog i gymryd yr amser mae ei angen arno i wreiddio ei ddull mewn tystiolaeth a rhoi ystyriaeth gynnar i'r rôl fydd gyda'r gweithlu, elfennau digidol, data a chyfathrebu o ran cyflawni'r newidiadau y mae am eu cyflawni. | Mae'r Cyngor wedi rhoi Cynllun Trawsnewid wedi'i ddiweddaru ar waith sydd wedi'i seilio ar ein dysgu a'n profiadau yn sgil y trawsnewid gwasanaethau sydd wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd diweddar a hefyd pwysigrwydd cynnal rheoli ariannol a threfniadau cynllunio gwasanaethau, â disgyblaeth, ac mewn modd cadarn. Mae'r dull yma sydd â hanes o lwyddo, wedi rhoi sylfaen gadarn i ni o ran diweddaru ein Cynllun Trawsnewid. Bydd yn galluogi'r Cyngor i barhau i gyflawni dyheadau llesiant ei Gynllun Corfforaethol, trawsnewid gwasanaethau, ac, ar yr un pryd, byw o fewn ei gyllideb.<br><br>Canolbwynt y rhaglen waith fydd gwreiddio'r egwyddorion sy'n sail i'r pedwar conglfaen allweddol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Trawsffurfio, ar hyd ystod Gwasanaethau'r Cyngor (Cydnerthedd y Gymuned; Atal; Profiad y Cwsmer / Trigolyn; a Defnyddio Adnoddau mewn modd Effeithlon, Effeithiol, ac yn y Modd Gorau Posibl). Bydd hyn cael ei ddatblygu drwy integreiddio egwyddorion y Cynllun Trawsnewid yn Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor ac yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau, a'u cyflenwi, a'r prosesau hunanasesu sydd ynghlwm â hynny. Hyn oll gan ofalu bod adolygu a blaenoriaethu ar waith ar gyfer y meysydd yma ar sail y sefydliad cyfan. Yn cyd-fynd â'r gwaith bydd cymorth a hyfforddiant yn cael eu rhoi ledled y gweithlu er mwyn codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth a rhoi cyfle ar gyfer adborth yn rhan o geisio gwelliant yn barhaus.<br><br>Yn ogystal â hyn bydd sylw parhaol yn cael ei roi i adolygu prif strategaethau, eu diweddaru a'u cyflawni, gan gynnwys o ran materion Digidol a'r Gweithlu; datblygu trefniadau ar gyfer defnyddio data mewn modd gwell, yn barhaus, er mwyn creu deallusrwydd y mae modd gweithredu arno; ac atgyfnerthu ein dull ar gyfer gofalu bod trigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau partner yn rhan o bethau. Bydd y trefniadau yma'n sail allweddol i drawsffurfio'r gwasanaeth, ac atgyfnerthu hyn, yn unol â'r newidiadau o ran anghenion ein cymunedau a chynyddu eu cydnerthedd.<br><br>Byddwn ni hefyd yn defnyddio ein trefniadau adrodd sydd wedi'u datblygu'n dda, er enghraifft, Adroddiadau Cyflawniad chwarterol a hunanasesiadau blynyddol, er mwyn adrodd ar effaith ein gwaith. |

| Meysydd i'w gwella / argymhellion | Ymateb |
| --- | --- |
| | |
| **Arddangos yr Effaith a'r Deilliannau ar gyfer ein Cymunedau.**<br><br>Mae'r Cyngor yn adeiladu ar fframwaith cyflawniad cryf presennol i integreiddio ei waith ar ymgysylltu, a chydnerthedd y gymuned; hyn o ran mesur deilliannau ac effaith.<br><br>Mae'r Cyngor yn deall bod gofyn iddo fabwysiadu dull rhoi ar brawf a dysgu wrth gyflawni'r newid y mae am ei wneud, a bod gofyn i hyn ddigwydd ar y cyd â'i bartneriaid.<br><br>Mae'r Cyngor yn cael ei annog i barhau â'r broses yma er mwyn datblygu'r sgiliau a'r capasiti fydd yn ei alluogi i:<br>• Weithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddylunio eu mesurau effaith a deilliannau ar lefel y gymuned a'r Fwrdeistref Sirol.<br>• Mesur y modd mae effaith a deilliannau yn amrywio ar draws ystod o grwpiau demograffig ac ardaloedd daearyddol. | Mae'r Cyngor, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi datblygu ei ddull er mwyn nodi, mewn modd mwy eglur, y deilliannau sydd wedi'u gosod, a'r effaith mae ei waith yn ei gael. Mae'n cynnwys yr wybodaeth yma yn ei drefniadau adrodd ar gyflawniad, sy'n cael eu cyhoeddi, eu cyflwyno i'r Cabinet ac y mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn craffu arnyn nhw.<br><br>Bydd y rhaglen barhaus yma o waith yn cael ei hymestyn i integreiddio gyda'r cynlluniau a'r gweithgareddau sy'n cael eu datblygu gyda'n cymunedau a phartneriaid o ran 'Meithrin Cydnerthedd Cymunedol' fel sydd wedi'i nodi isod. Yn rhan o'r gwaith ar y cyd yma byddwn ni'n: dod i ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion ein cymuned ymhellach; dyfeisio mesurau effaith a deilliannau a'u rhoi ar waith; a defnyddio dysgu ar y cyd i atgyfnerthu datblygu sgiliau a chapasiti yn ein Cyngor ac ymhlith ein partneriaid a'n cymunedau i gyd.<br><br>Ar y cyd â hyn, yn rhan o atgyfnerthu cyflawni Strategaeth Cyfranogiad y Cyngor 2025–2030, byddwn ni'n gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu ac yn olrhain amrywiaeth a chynhwysiant i ofalu ein bod ni'n clywed gan ystod eang o leisiau o wahanol gefndiroedd a bod y sawl sydd wedi'u hallgau yn ddigidol yn cael cyfleoedd i ddweud eu dweud. |

| Meysydd i'w gwella / argymhellion | Ymateb |
|---|---|
| • Gwerthuso i ba raddau y mae'r dulliau ymgysylltu presennol yn darparu ar gyfer bod yn rhan o bethau, ac yn annog hyn. | |
| **Datblygu Cydnerthedd y Gymuned**<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gofyn iddo gymryd digon o amser i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni.<br><br>Mae camau wedi eu cymryd gan y Cyngor yn barod ar gyfer y newid yma; mae ad-drefnu'r uwch garfan yn rhan o hyn.<br><br>Dyma annog y Cyngor i wneud y canlynol:<br>• Buddsoddi amser mewn dysgu o arfer mewn mannau eraill a chynnwys ei gymunedau a'i bartneriaid wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gydnerthedd y gymuned.<br>• Deall y prif adnoddau galluogi, a'u sefydlu, megis data, y gweithlu, y dull cyfathrebu ac ymgysylltu, systemau digidol at ddibenion atgyfnerthu'r rhaglen newid.<br>• Nodi cyfleoedd i roi’r dull ar brawf, dysgu yn ei gylch a’i ailadrodd cyn ei roi ar waith yn ehangach.<br>• Rhoi dull Cyngor cyfan ar waith o ran y newid, gan ofalu bod pob rhan o'r Cyngor yn deall sut y mae | Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn yr angen i gael dealltwriaeth ar y cyd gyda'n cymunedau a'n partneriaid o ran 'cydnerthedd y gymuned' a sut mae modd diffinio hyn. Mae gwaith ar nodi ymchwil bresennol ac arfer da i'r perwyl yma wedi dechrau dan ofal Y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI); bydd hyn yn sail i'r dulliau rydyn ni'n eu rhoi ar waith gyda'n cymunedau wrth symud ymlaen. Mae cael y gymuned a'r sectorau gwirfoddoli yn rhan o bethau o ran trafod y gwaith sylfaen pwysig yma wedi dechrau drwy ddeialog adeiladol gydag aelodau o Interlink RhCT ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i ofalu bod iaith a dealltwriaeth gyffredin ar waith o ran y partneriaid i gyd.<br><br>Yng Nghynllun Corfforaethol 2024–2030, mae dyhead y Cyngor i weithio mewn modd mwy cydweithredol â chymunedau, ac mewn modd sy'n eu grymuso, yn cael ei nodi'n glir. Mae enghreifftiau o arfer da yn dod i'r amlwg yn ein gwasanaethau, ac mae'r rhain eisoes yn sail i'n gwaith gyda chymunedau yn y maes yma. Rydyn ni'n derbyn bod angen gwneud rhagor o waith i ofalu bod dull Cyngor cyfan ar waith sy'n ysgogi newid diwylliannol yn y Cyngor, ac ymhlith ein cymunedau ac ein partneriaid fel ei gilydd, nawr bod y conglfeini trawsnewid wedi eu nodi, a bydd gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r cynlluniau rhoi ar waith. Yn rhan o'r gwaith yma, byddwn ni'n nodi 'ymrwymiad y Cyngor' er mwyn sefydlu perthynas newydd gyda'r gymuned a'r sector gwirfoddoli, a'i hatgyfnerthu, sy'n adeiladu ar sawl llif gwaith a blaenoriaeth megis gwell deilliannau a rennir sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal, ein dull ar sail lle ar gyfer datblygu'r gymuned, adolygiad o'n dull o gomisiynu gwasanaethau'r gymuned a rhaglen ‘Pride in Place’ sefydliad Busnes yn y Gymuned. Bydd y Cyngor yn gofalu bod cynrychiolwyr o'r Cyngor yn llywio'r ddogfen 'Ymrwymiad y Cyngor' yma a'u bod nhw'n rhan o'n llifoedd gwaith, a bydd yn cydnabod eu rôl yn bartneriaid yn y gwaith o ddatblygu'n dull ar y cyd a'i roi ar waith, o ran gwella cydnerthedd y gymuned. |

| Meysydd i'w gwella / argymhellion | Ymateb |
| --- | --- |
| gofyn iddo addasu i greu'r newid diwylliannol mae am ei weld. | |